# Castell y Mis:



## Castell Caerdydd

1. Ewch i wefan Teithwyr Amser. Dysgwch am y castell a phwy fu'n byw ynddo. Cliciwch ar un o'r cymeriadau ar y llinell amser er mwyn dysgu mwy am y cyfnod.
2. Ewch ati i ysgrifennu stori ddychmygol am un o'r cymeriadau.

Ffocws: Chwaraeon

# Cwis yr Wythnos: 31.01.2022

1. Rhestrwch holl gemau Cymru yng nghystadleuaeth Y Chwe Gwlad yn y drefn chwarae.

2. Beth yw enwau hyfforddwyr timau rygbi Cymru? (tîm y dynion a thîm y menywod)

3. Pwy yw capteiniaid timau rygbi Cymru (menywod a dynion) ar gyfer cystadleuaeth Y Chwe Gwlad?






Gwefan Ddefnyddiol

# Chwaraeon y Mis








## Rygbi


(addas i fl.5/6 a gyda chaniatad rhieni, bl.4)

1. Darllenwch reolau rygbi tag Yr Urdd.
2. Ewch ati gyda'ch athro i ddysgu sut i chwarae rygbi tag yn gywir.









# Cwis yr Wythnos: 07.02.2022

1. Pwy sy'n cyflwyno'r rhaglen 'Cic' Rygbi ar Stwnsh?

2. Enwch 2 raglen arall sy'n rhan o gyfres 'Cic.'

3. Beth gelli di ennill pe byddet ti'n cystalu yng nghystadleuaeth Stwnsh Sadwrn y mis hwn?





Gwefan Ddefnyddiol

# Digwyddiad y Mis:



## Y Chwe Gwlad

Ewch ati i ddylunio a chreu gêm fwrdd i blant 8-11 oed yn seiliedig ar gystadleuaeth Y 6 Gwlad. Dylai'r gêm gynnwys rheolau clir (gan gynnwys sut gellir ennill y gêm) a chardiau cwestiynau yn seiliedig ar y gwledydd sy'n cystadlu/ rygbi .



# Cwis yr Wythnos: 14.02.2022

1. Yn ystod pa fis mae Diwrnod Owain Glyndŵr?

2. Pa ganran o dir Cymru sydd mewn trefi?
A).Tua 10%
B). Tua 50%
C). Tua 75%

3. Beth yw ieithoedd swyddogol Cymru?

Pwynt bonws! Enwch hwy!

# Man aros y Mis:



## Castell Rhuthun

Erbyn heddiw, mae Castell Rhuthun yn westy moethus. Dysgwch am hanes y castell trwy glicio yma.

Ewch ati i ddylunio bwydlen tê prynhawn. Bydd angen cymysgedd o fwydydd sawrus a melys. Os yn bosibl, dyluniwch eich bwydlen gan ddefnyddio cynnyrch o Gymru.

Ffocws: Ardal Leol

# Cwis yr Wythnos: 28.02.2022

1. Rhestrwch 3 barc siopa o fewn Dinas a Sir Abertawe.

2. Rhestrwch 4 siop trîn gwallt sydd yn yr ardal leol.

3. Rhestrwch 5 ysgol sydd o fewn eich milltir sgwâr.



